

BLWYDDYN i'w chofio – a'i anghofio. Ar un wedd ni bu ei gwell; ar wedd arall ni bu ei gwaeth. A'r newydd da yw i ni gael helpa oludog o aelodau newydd – tros ddau gant i godi'r cylchrediad yn glir tros y deuddeg cant i 1,208. Ond yn ariannol fe wnaethom gryn golled am i ni lynu'n rhy hir wrth y ddwybunt tâl aelodaeth, gan ein gorfodi i'w godi i DAIR PUNT at y flwyddyn nesaf – a chofiwch ei fod yn ddyledus yn awr, a chofiwch, chi bobl dda yr archeb banc, newid honno. Ni phryderwn am y golled ariannol; 'roedd gennym gele bach wrth gefn. A gwell i wr gollu arian ... Achos gwnaeth eich cefnogaeth iawn am bopeth. Cofiwch gyfrannu i lenwi'r colofnau – mae croeso i bawb. A diolch calon am y rhoddiion.

HENGERDD MAB Y CONCWERWR

YR OEDD Robert Curthose (a alwyd felly am fod ei goes, ac felly ei hosan, yn fer) yn Ddug Normandi wedi i'w dad Gwilym y Gorchfygwr ddod yn frenin Lloegr. Priodolir iddo'r gerdd Gymraeg uchod – gweler diweddariad yr Athro Gwyn Thomas isod – a gyfansoddodd pan garcharwyd ef gan ei dad yng nghastell Caerdydd, lle meddir y daeth i gysylltiad â beirdd Morgannwg a lle dygodd Gymraeg.

Prin y sylwyd ar yr englynion yma yng Nghymru – tybed, yn wir, a gyhoeddwyd y chwech yma cyn hyn. Ond mae haneswyr Americanaidd yn eu derbyn fel rhai dilys.


Fe'u dyfynnir gan yr Athro C.J. David, (a yw o dras Cymreig?) a fu'n athro Hanes Ewrob yng ngholeg Bryn Mawr yn yr Unol Daleithiau, mewn darlith safonol i Brifysgol Harvard yn 1920. Ac fe lynnir wrth y stori gan athro Hanes arall o America, Richard F. Cassidy, yn ei gyfrol sylweddol *The Norman Achievement* a gyhoeddwyd eleni.

Y drwg yn y caws yw'r ffaith mai Iolo Morganwg, mewn erthygl yn y *Gentleman's Magazine* yn 1794 a ddaeth a'r gerdd i olau dydd. Ond y mae'n nodi ei ffynhonnell, sef o lawysgrif yn llyfrgell Thomas Truman, Pant-y-Lliwydd (a elwir weithiau'n *Dyers Valley*) ger y Bontfaen.

Sais oedd Thomas Truman – daeth ei deulu o Northampton gyda byddin Cromwell i Forgannwg. Priododd Thomas etifeddes Pant-y-Lliwydd ac roedd yn ymddiddori'n arbennig mewn hynafiaethau ac achyddiaeth. Gwasgarwyd ei lyfrgell yn ystod y ganrif ddiwethaf er bod rhai llawysgrifau achyddol ar gael o

Dar a dyfws ar y clawdd,
Gwedi gwaedffrau gwedi ffrawdd;
Gwael wrth win ymtrin ymtrawdd.

Dar a dyfws ar y glâs,
Gwedi gwaedffrau gwyr a lâs;
Gwael wr wrth y bo ai câs.



Bedd Robert Dug Normandi yn Eglwys Caerloyw

hyd – ond nid y llawysgrif y cyfeiria Iolo ati.

Ond mae'n wir i'r Gorchfygwr garcharu ei fab gwrthryfelgar Robert Curthose yng nghastell Caerdydd am hir ddyddiau. Yno y bu farw yn 1134 yn yr oedran teg o bedwar ugain – diolch mae'n ddiu i'r ffaith mai'n ddiogel yn y castell yr oedd. Am ei Gymraeg – does yna ddim ond gair Iolo.

Ond yn y *Gentleman's Magazine* fe a Iolo i'r drafferth i bwysleisio nad yn ei ddychymyg ef 'roedd y cyfan am na fuasai undim meddai "by either personal Interest or national vanity to invent any thing of this nature."

Yn *Llenyddiaeth y Cymry* (1915) fe nodi T. Gwynn Jones fel yr oedd y Normaniaid yn cymysgu gyda'r Cymry, yn priodi eu merched, yn

Dar a dyfws ar y tonn,
Gwedi gwaedffrau a briw bronn;
Gwael a gar gwyyd amryson.

Dar a dyfws ym meillion,
A chan a'i briw ni bi gronn;
Gwael wr wrth ei gascion.

Dar a dyfws ar dir pen
Gallt, ger ymddon Mor Hafren
Gwael wr na bai digon hên.

Dar a dyfws yngwynnau,
A thwrff a thrin a thrangau;
Gwael a wyl na bo Angau.

work is now so far advanced that I hope I shall be able to put it to the press in about three months. I flatter myself that I shall be able also to give in it, from *authentic Welsh MSS*, many anecdotes that will be interesting to the British Historian, to the Antiquary, the Moralist, and the Bard. From a MS. of Mr. Thomas Truman, of Pant Lliwydd (Dyer's valley), near Cowbridge, Glamorgan, containing, in the Welsh Language, "An Account of the Lords Marchers of Glamorgan from Robert Fitz Hamon down to Jasper, Duke of Bedford," and written about the year 1500, I copied the following:

"Pan oedd Rhobert Tywyng Norddanti yn garcharu yn Nghastell Caerdyf, gan Robert a'r Anon, medru a wnaeth ar y iaith Gymraeg; ac o weled y Beirdd Cymreig yno ar y Gwyliau efe a'u ceris, ac a seith yn Fardd; a llyma englynion a gant efe.

I conceive that the sentiments of this little piece are mysteriously allusive to the distressful incidents of the unfortunate and greatly injured duke's stormy life.

The *Suvern* *Bay*, or Bristol channel, and the woody promontory of Penarth, are full in view of Cardiff castle, at the distance, in a direct line, of no more than two miles. There are on this promontory the vestiges of an old camp (Roman, I believe), on one of the banks or mounds of which, these verses suppose the apostrophized oak to be growing.

I wish some gentlemen in Wales, conversant with our old MSS, would inform the publick, through the channel of your Magazine, whether they know of any other pieces or fragments of Welsh poetry by Robert, Duke of Normandy.

The foregoing verses suppose that the Duke was *not blind*, and that the oak, the *Suvern*, and the promontory, were seen by him. This may be considered as an additional evidence to what has been adduced by many judicious writers (amongst them, if I remember well, the learned and ingenious Bishop of Dromore, in his "Reliques of Ancient English Poetry"), that the eyes of the duke were *not* put out, though the Cardiff tradition asserts that they were. I hope, for the honour of human nature, that this tradition asserts a falsehood. My Welsh MS. account says nothing of the duke's eyes having been put out. (See Camden in Glam. and Cardiff).

If this anecdote should be worth your notice, I will occasionally send a few more, not less curious, to be preferred in your long-living Magazine.

Yours, &c. EDWARD WILLIAMS.

Derwen a dyfodd ar y clawdd,
Ar ôl tywallt gwaed, ar ôl trais;
Gwael ymdderuw uwchben gwîn.

Derwen a dyfodd ar y glâs,
Ar ôl tywallt gwaed, lladwyd gwyr;
Gwael wr wrth bwy bynnag sy'n ei gasau.

Derwen a dyfodd o'r gwyrddlesni
Ar ôl tywallt gwaed a bron friwedig;
Gwael y sawl a gar ymladd gwyllt.

Derwen a dyfodd ymhlith meillion,
Ac oherwydd y sawl a'i hanafodd ni bu gron;
Gwael wr sy'n ngafael gelynyon.

Derwen a dyfodd ar dir ar ben
Gallt, wrth lan Môr Hafren
Gwael wr na fai'n ddigon hên.

Derwen a dyfodd trwy ddieterau
A thwrff a brwydr a marwolaethau;
Gwael yr hwn sy'n gweld na bo Angau.